Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | Cyfarfod: | Bwrdd Plismona | |
|---|---|---|---|
| COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER | Lleoliad: | Ystafell Gynadledda SCHTh | Heddlu•Police DYFED-POWYS |
| | Dyddiad: | 26 Mai 2016 | Diogelu ein Cymuned – Safeguarding our Community |
| | Amser: | 16:00 – 17:15 | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau**: | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (CC)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC) |
| **Hefyd yn Bresennol**: | Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>Dr Helen Morgan-Howard, Prosiect Llywodraethu Corfforaethol (HM-H)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |
| **Ymddiheuriadau**: | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) |

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 26/05/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o'r penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 01** | **Mae'r CHTh yn cymeradwyo gwobrwyo cytundeb fframwaith ar gyfer ymgymryd ag arolygon cyflymder a rhifo traffig** | **CC** |

Agorodd y CHTh ei Fwrdd Plismona cyntaf, gan fynegi ei ddiolch i'r holl staff sydd wedi mynd yr ail filltir i'w groesawu. Mae'r CHTh yn croesawu deialog onest ac agored â staff ac mae'n gobeithio y bydd yn parhau. Nid chododd y PG wrthwynebiad i ran y CHTh yn siarad â'r holl staff yn uniongyrchol pe bai'n dymuno hynny.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan CM, gyda'r CHTh yn dymuno'n dda iddi wrth iddi wella.

Roedd y PG wedi gofyn i HM-H fod yn bresennol yn rhinwedd ei rôl newydd sy'n ymwneud â gweithio ar y Prosiect Llywodraethu Corfforaethol. Cytunwyd y byddai'r PG a'r CHTh yn trafod strwythur cyfarfodydd Bwrdd Plismona yn y dyfodol maes o law.

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill a materion yn codi

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Cododd y CHTh gais Cyngor Tref y Trallwng ar gyfer Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus. Rhoddodd y PG drosolwg o'r trafodaethau hyd yn hyn. Cadarnhaodd y CHTh ei fod yn cefnogi ymagwedd y PG i gefnogi swyddogion lleol i wneud y penderfyniad ar y

cais am y gorchymyn. Cytunwyd y byddai'r Comisiynydd yn ymgysylltu â'r Cyngor Tref i wrando ar eu pryderon.

Roedd y CHTh yn ymwybodol bod darpariaeth o ran Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys o bryder ledled Cymru, a gofynnodd am dderbyn unrhyw wybodaeth a oedd gan yr Heddlu ynghylch y mater. Dywedodd y PG bod Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o'r pryderon. Awgrymodd y PG y dylai sesiwn wybodaeth gael ei threfnu ar y mater ar gyfer y CHTh, gan y byddai angen cymorth SCHTh wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.

**Cam Gweithredu: Michelle Williams o'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys i ddarparu gwybodaeth i'r CHTh ar Raglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys**

Dywedodd y CHTh ei fod e'n gobeithio disodli'r CHTh blaenorol ar Fwrdd y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod HDP a'i gymunedau'n cael eu cynrychioli. Roedd y CHTh yn gwybod am rai materion o ran cyfraddau ymateb o fewn y 3 mis cyntaf, gan gydnabod y gallai'r rhain fod yn gysylltiedig â'r cyfnod 'mewnosod'. Roedd y CHTh hefyd yn poeni y gallai swyddogion fod yn gyndyn i wneud ceisiadau oherwydd eu bod yn teimlo na fyddent yn cael eu bodloni'n briodol. Cytunwyd y byddai data monitro dal yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Nododd y PG bod y criw hofrennydd yn teimlo'n gryf nad ydynt yn derbyn cymaint o geisiadau ag y byddent yn disgwyl. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â dadansoddiad o ddata cefnogaeth o'r awyr blaenorol er mwyn gwneud cymariaethau a chynorthwyo â chynllunio yn y dyfodol. Cytunodd y PG y byddai hyn yn ddefnyddiol, gan ddweud hefyd bod data digonol wedi'i dderbyn i ddadansoddi'r gost gyfredol fesul awr ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol. Dywedodd y CC bod y cynnydd o ran caffael awyren adenydd sefydlog yn aneglur ar hyn o bryd. Cytunodd y CC i roi cefndir i'r CHTh o ran y cytundeb Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol.

**Cam Gweithredu: CC a PSA i symud adolygiad o'r model costio NPAS (Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol) ymlaen, a chymharu data o ran y gwasanaeth awyr blaenorol â'r data cyfredol**

**Cam Gweithredu: CC i roi cefndir y cytundeb NPAS i'r CHTh**

## Diweddariad y Prif Gwnstabl

Rhoddodd y PG drosolwg o ddigwyddiadau gweithredol allweddol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd. Ymatebodd swyddogion a'r ysgol yn dda i fygythiad bom a wnaed yn erbyn ysgol yn Llanelli, a oedd yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau tebyg ledled y DU. Arweiniodd digwyddiad mewn parti priodas yn Llanelli at 4 swyddog yn dioddef ymosodiadau a 5 unigolyn yn cael eu harestio. Roedd y swyddogion wedi delio â'r digwyddiad yn dda ac roedd yr holl ddilyniannau lles perthnasol wedi'u cyflawni. Roedd swyddogion yn gweithio'n agos â chymunedau lleol yn dilyn hunanladdiad unigolyn ifanc. Rhyng-gipiodd swyddogion unigolyn o wlad Romania a oedd yn ceisio dod yn ôl i mewn i'r wlad ar ôl cael ei alltudio. Mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Mewnfudo, llwyddodd swyddogion i ddychwelyd yr unigolyn i Iwerddon ar y llong nesaf a oedd ar gael. Roedd dyn wedi'i

fechnïo o dan amod yn dilyn ei arést am stelcio cynbartner. Llwyddodd Cwnstabliaid Gwirfoddol (Aled Thomas a Saul Thomas) yn Cross Hands i ddal unigolyn ar ôl iddynt yrru trwy olau coch, gorfodi'r swyddogion i gymryd camau gweithredu cyfrwys a gwrthdaro â cherbyd arall. Roedd dynes a oedd wedi chwythu'r chwiban mewn perthynas â safonau gofal wedi'i chyhuddo â 22 cyfrif o dwyll trwy ddefnyddio manylion ariannol dioddefwyr oedrannus. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag ymchwil i ddioddefwyr trosedd oedrannus a oedd yn cael ei gyflawni gan yr Heddlu ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth.

Adroddodd y PG bod 3 aelod staff wedi'u hatal o'u gwaith ar hyn o bryd. Roedd AHEM wedi dod â'u hymweliad arolygu i ben, a disgwylir ôl-drafodaeth, er bod arwyddion cynnar yn gadarnhaol.

**Diweddariad y Prif Swyddog Ariannol**

Dywedodd y PSA y byddai'r agenda drafft ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio nesaf yn cael ei ddosbarthu fory, ac y byddai'r cyfarfod yn canolbwyntio'n arbennig ar risg ac AHEM. Dywedodd y CC bod cau'r cyfrifon a'r sefyllfa drafft ar y trywydd iawn, ond roedd y ffigurau dal yn cael eu cwblhau.

**Diweddariadau**

***GanBwyll***

Nododd y CHTh yr adroddiad a dderbyniwyd cyn y cyfarfod. Esboniodd y CC mai cytundeb fframwaith ydoedd ar gyfer Cymru gyfan a reolir gan GanBwyll. Holodd y CHTh sut oedd pryderon cymunedol yn cael eu nodi. Eglurwyd bod hyn yn cael ei wneud gan GanBwyll mewn partneriaeth â HDP. Awgrymodd y PG y dylid trefnu sesiwn wybodaeth ar GanBwyll ar gyfer y CHTh.

**Cam Gweithredu: Trefnu sesiwn wybodaeth ar GanBwyll ar gyfer y CHTh**

Gofynnodd y CHTh sut oedd arian ros ben o'r cyrsiau ailhyfforddi gyrwyr a roddwyd i'r adran plismona'r ffyrdd wedi'i wario. Dywedodd y CHTh bod angen cynllun ar gyfer gwario unrhyw arian dros ben yn y dyfodol  mwyn gwario'r arian yn ddoeth a gwneud gwahaniaeth i ddiogelwch y ffyrdd. Eglurodd y PG nad oedd gorfodi cyflymder yn ymwneud â chynhyrchu incwm, a bod angen ail-fuddsoddi unrhyw arian dros ben. Cytunodd bod nifer o opsiynau werth eu hystyried ymhellach.

**Cam Gweithredu: Adrodd i'r CHTh ar sut yr oedd arian dros ben o ran ailhyfforddi gyrwyr yn cael ei wario, a rhoi cynllun iddo ar gyfer gwariant yn y dyfodol**

Eglurodd y PSA bod angen cymeradwyo'r cynnig i wobrwyo'r fframwaith gan fod y gwerth dros £500,000, yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

**Penderfyniad: Mae'r CHTh yn cymeradwyo gwobrwyo cytundeb fframwaith ar gyfer ymgymryd ag arolygon cyflymder a rhifo traffig**

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Ystadau***

Ceisiodd y CHTh sicrwydd gan y PG bod y gyfradd cydymffurfio o ran ystadau, sef 85%, yn sefyllfa gywir, a chododd y mater o adnewyddu bloc llety'r Pencadlys. Cytunwyd bod angen penderfyniad o ran pa un ai a ddylid parhau ar unwaith. Cyfnewidiwyd barn unigol, gyda'r PSA yn dweud bod angen cyflwyno achos busnes llawn, gan gymharu gwerth am arian adnewyddu â dewisiadau eraill o ran llety. Cadarnhaodd y CC bod y trefniadau cyfredol â gwesty allanol wedi'u trafod eto, gan arwain at bris gostyngol fesul noson.

***Ceir Cronfa***

Ceisiodd y CHTh sicrwydd bod yr heddlu'n defnyddio'r ceir mwyaf economaidd posibl. Dywedodd y CC bod angen amryw o gerbydau er mwyn bodloni anghenion gweithredol, ond roedd y rhan fwyaf yn cael eu prynu yn unol â'r fframwaith cenedlaethol. Cytunodd y CC i roi crynodeb o'r fflyd.

**Cam Gweithredu: CC i roi crynodeb o fflyd yr Heddlu i'r CHTh**

Eglurodd y PG mai car Prif Swyddog dros ben yw'r BMW a bennwyd yn flaenorol i SCHTh nad oedd wedi dod i ben ei oes ddefnyddiol pan gafodd ei bennu.

***Trwyddedu Arfau Saethu***

Ceisiodd y CHTh sicrwydd gan y PG bod gwelliannau'n cael eu gwneud. Dywedodd y PG bod trwyddedu arfau saethu wedi bod yn achos pryder yn y gorffennol. Roedd y PG yn ystyried bod y swyddogaeth yn un o ryngweithio rhwng gweinyddu, gwasanaeth cwsmer, ac yn bwysicaf oll, diogelwch cyhoeddus. Os oedd oedi o ran un elfen, byddai'n effeithio'n negyddol ar y ddwy swyddogaeth arall, ac mae'r cylch adnewyddu o 5 mlynedd ar gyfer trwyddedau'n achosi cynnydd o ran pwysau gwaith. Roedd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn rheoli'r sefyllfa, ac roedd yn ymwybodol y byddai angen staff cyflenwi dros dro i reoli'r cynnydd a ddisgwylir o ran y llwyth gwaith cyn hir. Roedd y PG wedi trafod y mater â BASC, a oedd wedi nodi nad oedd HDP o bryder iddynt ar hyn o bryd. Dywedodd y PG bod gan HDP y nifer mwyaf o ddalwyr trwydded fesul pen poblogaeth o gymharu â heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr.

***Prosesu Traffig***

Nododd y CHTh ei fod yn ymwybodol o oedi o ran prosesu hysbysiadau a chynnydd o ran achosion yn mynd yn syth i'r llys. Sicrhaodd y PG bod y tîm Gwella Parhaus yn gweithio gyda'r adran i wneud gwelliannau. Awgrymodd y PG bod y CHTh yn derbyn diweddariad ar berfformiad gan y Pennaeth Cyfiawnder Troseddol. Dywedodd y CC a'r PSA bod tystiolaeth o welliannau sylweddol yng nghyfarfodydd perfformiad yr Uned Cymorth Busnes, ac er bod dal rhai materion i'w goresgyn, roedd y rhain yn derbyn sylw.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 26/05/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2001** | **Michelle Williams o'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys i ddarparu gwybodaeth i'r CHTh ar Raglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys** | **MMS** |
| **PB 2002** | **CC a PSA i symud adolygiad o'r model costio NPAS (Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol) ymlaen, a chymharu data o ran y gwasanaeth awyr blaenorol â'r data cyfredol** | **CC / PSA** |
| **PB 2003** | **CC i roi cefndir y cytundeb NPAS i'r CHTh** | **CC** |
| **PB 2004** | **Trefnu sesiwn wybodaeth ar GanBwyll ar gyfer y CHTh** | **MMS** |
| **PB 2005** | **Adrodd i'r CHTh ar sut yr oedd arian dros ben o ran ailhyfforddi gyrwyr yn cael ei wario, a rhoi cynllun iddo ar gyfer gwariant yn y dyfodol** | **CC** |
| **PB 2006** | **CC i roi crynodeb o fflyd yr Heddlu i'r CHTh** | **CC** |